Wales Office
Swyddfa Cymru

**Araith y Frenhines 2014**

**BILIAU A FYDDAI'N BERTHNASOL I GYMRU**

| **Bil** | **Pwrpas** |
|---|---|
| **Bil y Lluoedd Arfog (Cwynion am y Gwasanaeth a Chymorth Ariannol)** | Byddai'r Bil yn gwella ac yn cryfhau system gwyno'r Gwasanaeth ac yn rhoi'r gallu i wneud taliadau i elusennau a mudiadau eraill sy'n cefnogi ein Lluoedd Arfog ledled y Deyrnas Unedig. |
| **Bil Taliadau Gofal Plant** | Bydd y Bil yn cyflwyno cynllun a fydd yn cynnig 20 y cant o gymorth i deuluoedd sy'n gweithio i dalu am gostau gofal plant cymwys, hyd at uchafswm o £2,000 y flwyddyn ar gyfer pob plentyn. |
| **Bil Caethwasiaeth Modern** | Bydd y Bil yn rhoi'r gallu i orfodi'r gyfraith, gyda gwell adnoddau i ddileu caethwasiaeth modern, i sicrhau bod caethfeistri yn cael cosbau llym a phriodol, ac i wella diogelwch dioddefwyr a'r cymorth sydd ar gael iddynt. |
| **Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol** | Bydd y Bil yn diogelu refeniw cyhoeddus drwy fynd i'r afael â'r rheini sy'n osgoi cyfrannu a hefyd drwy symleiddio'r broses o gasglu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 gan weithwyr hunangyflogedig. |
| **Bil Pensiynau Preifat** | Bydd y Bil yn arwain at sefydlu pensiynau Uchelgais Diffiniedig newydd sy'n rhannu mwy o'r risg rhwng y partïon. Bydd hefyd yn galluogi Remploy i ganiatáu i'r Adran Gwaith a Phensiynau ariannu ei gynllun pensiwn yn uniongyrchol. |
| **Bil Treth Pensiynau** | Bydd y Bil yn rhoi newidiadau i'r rheolau treth pensiynau ar waith fel y cyhoeddwyd yn y Gyllideb, gan roi mwy o ryddid a dewis i unigolion o ran sut i gael gafael ar gynilion yn eu pensiwn cyfraniadau diffiniedig. |
| **Bil Galw Aelodau Seneddol yn Ôl** | Bydd y Bil yn llenwi bwlch yng ngoruchwyliaeth reoleiddiol Aelodau Seneddol drwy ganiatáu i bleidleiswyr alw am isetholiad os gwelir bod Aelod Seneddol wedi drwgweithredu'n ddifrifol ac os |

| | |
|---|---|
| | gellir cael deiseb yn galw am isetholiad wedi'i lofnodi gan 10% o'i etholwyr. |
| **Bil Gwroldeb, Cyfrifoldeb a Gweithredu Cymdeithasol** | Bydd y Bil yn rhoi sicrwydd i'r rheini sy'n gweithredu er budd y gymdeithas – ac yn dangos agwedd gyffredinol gyfrifol tuag at sicrhau diogelwch eraill neu ymyrryd mewn argyfwng – y bydd y llys yn ystyried y camau a gymerwyd ganddynt yn eu cyd-destun os bydd rhywbeth yn mynd o'i le a'u bod yn cael eu herlyn am esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol. |
| **Bil Troseddau Difrifol** | Bydd y Bil yn adeiladu ar y gyfraith droseddol a sifil bresennol i sicrhau bod cynlluniau troseddwyr cyfundrefnol a difrifol yn cael eu chwalu a'u bod yn cael eu hymlid a'u rhoi o flaen eu gwell, gan warchod yn erbyn bygythiadau o derfysgaeth a diogelu menywod a phlant agored i niwed. |
| **Bil Diogelu Elusennau Drafft** | Bydd y Bil yn mynd ati'n well i ddiogelu elusennau yng Nghymru a Lloegr rhag i neb gamweithredu yn eu herbyn, ac yn rhoi'r gallu i'r Comisiwn Elusennau fynd i'r afael â chamweithredu yn fwy effeithiol ac effeithlon. |
| **Bil Terfysg (Difrod) Drafft** | Byddai'r Bil yn diwygio'r Ddeddf Terfysg (Difrod) bresennol, gan wella a moderneiddio'r ffordd y mae iawndal yn cael ei dalu i unigolion a busnesau sydd wedi cael colledion neu wedi wynebu difrod i'w heiddo yn ystod terfysgoedd. |

**BILIAU LLE GALL RHAI DARPARIAETHAU FOD YN BERTHNASOL I GYMRU**

| | |
|---|---|
| **Bil Seilwaith** | Bydd y Bil yn rhoi hwb i fuddsoddiad mewn seilwaith drwy ddarparu fframweithiau llywodraethu priodol i ganiatáu cyllid sefydlog yn yr hirdymor, sicrhau gwell gwerth am arian a lleihau pwysau gweinyddol diangen. Bydd y Bil hefyd yn gwneud gwybodaeth yn fwy tryloyw ac yn gwella prosesau cynllunio, gan ein galluogi i fwrw ymlaen a sicrhau bod Prydain yn adeiladu ar gyfer ein dyfodol. |
| **Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth** | Bydd y Bil yn cynorthwyo busnesau bach ac yn eu galluogi i gystadlu, gan wneud yn siŵr nad ydynt yn wynebu unrhyw anfantais gan y rheini nad ydynt yn cydymffurfio. |

**BILIAU NAD YDYNT YN BERTHNASOL I GYMRU**

| | |
|---|---|
| **Bil Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Etholiadau) Drafft** | Bydd y Bil drafft yn ei gwneud yn bosib i ehangu cyfansoddiad awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdod y Broads yn Lloegr yn y dyfodol, drwy orchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Prif bwrpas y Bil drafft fyddai darparu ar gyfer cynnal etholiadau lleol i'r awdurdodau. |